CYNGOR monmouthshire COUNTY COUNCIL sir fynwy

# PECYN YMGEISIO
# ADRAN 50 - TRWYDDED GWAITH STRYD

**YN UNOL Â**
**DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991**

**CYNNWYS**


A. Nodiadau Cyfarwyddyd ac Amodau

B. Gweithdrefn Ymgeisio

C. Ffurflen Gais (TGS1)

D. Ffurflen Gais Arwyddion Traffig Dros Dro

E. Rhestr Ymgymerwyr Statudol

F. Rhestr Wirio

G. Cofrestru'r Gwaith (TGS2)

## A. NODIADAU CYFARWYDDYD AC AMODAU

**1.** Rhaid i unrhyw berson (ac eithrio Ymgymerwr Statudol) sy'n dymuno gosod neu gadw cyfarpar preifat yn y stryd ac wedi hynny ei archwilio, cynnal, addasu, atgyweirio, newid neu ei adnewyddu, bod â Thrwydded Gwaith Stryd (Adran 50). Mae’r term cyfarpar yn cynnwys draeniau, ceblau, dwythellau, pibellau carthffosiaeth a phibellau nwy ac ati.

2. Mae'r person a dderbyniodd y Drwydded Gwaith Stryd yn dod yn Ymgymerwr at ddibenion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, ac felly mae ganddo'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a osodir gan y Ddeddf a'r Is-ddeddfwriaeth a Chodau Ymarfer cysylltiedig. Cynghorir yn gryf i ymgeiswyr, nad ydynt yn gyfarwydd â gofynion y ddeddfwriaeth hon, i benodi contractwr sydd â'r wybodaeth a'r achrediad priodol i’w helpu cwblhau'r cais.

3. Bydd y Trwyddedai yn talu ffi drwydded o £1,016.00 i Awdurdod y Stryd (Cyngor Sir Fynwy) sy'n cynnwys:-
(i) Ffi weinyddol o £334.00
(ii) Ffi gyfalafol o £192.00 yn lle tâl blynyddol
(iii) Ffi arolygu o £490.00 am bob 200m o hyd, neu ran ohono.
Mae'r ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau cysylltiedig eraill, megis dargyfeiriadau traffig, gorchmynion traffig dros dro ac unrhyw ddifrod a cholledion a achoswyd gan y gwaith.

**NEU** Mae angen ffi o £465.00 i archwilio, atgyweirio neu amnewid unrhyw gyfarpar lle mae Adran 50 eisoes mewn bodolaeth.

4. Cyn dechrau ar unrhyw waith bydd yr ymgeisydd yn penderfynu ar union leoliad unrhyw beirianwaith yr Ymgymerwyr Statudol. Bydd yr ymgeisydd yn caniatáu ar gyfer y broses hysbysu wrth raglennu ei waith, a bydd copïau o'r cynlluniau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Stryd wrth wneud cais.

***5.*** Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992 yn nodi’r meini prawf cymwysterau ar gyfer personau sy'n cloddio ar y briffordd sy'n ofynnol gan Adran 67 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. At ddibenion cyflawni'r gwaith, bydd y Trwyddedai neu’r asiant yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer ar gyfer Hyfforddiant a gyhoeddwyd dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Yn benodol, bydd y goruchwyliwr a'r gweithredydd yn cael eu hyfforddi a'u hachredu i ofynion y Codau Ymarfer. ***Rhaid i brawf o achrediad o'r fath cael ei ddarparu gyda'r cais hwn.***

6. Bydd y Trwyddedai yn ymgymryd â'r gwaith mewn modd sy’n tarfu a rhwystro cyn lleied â phosibl ar draffig cerbydau a cherddwyr, a bydd yn gwarchod y gwaith yn unol â Chod Ymarfer Gwaith Stryd a Gwaith Ffyrdd 2001 sy'n rhoi canllawiau penodol ar arwyddo, goleuadau a gwarchod gwaith dros dro yn ddiogel ar y Priffyrdd, fel sy'n ofynnol gan Adran 65 Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

7. Mae rhai strydoedd wedi'u dynodi gydag amodau arbennig i reoli gwaith stryd. Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod unrhyw waith yn cydymffurfio â'r amodau hyn. Mae'r rhain ar gael gan Gyngor Sir Fynwy ar gais.

**8.** Bydd y Trwyddedai yn indemnio Cyngor Sir Fynwy fel yr Awdurdod Priffyrdd mewn perthynas ag unrhyw hawliad, treuliau neu achosion o ran camau gweithredu Trydydd Parti, mewn perthynas â niwed, difrod neu golled a all godi oherwydd ei waith ar y briffordd. Bydd y Trwyddedai yn rhoi ar waith yswiriant sy’n indemnio'r Trwyddedai a'r Cyngor, drwy gydol y gwaith a hyd nes i’r Cyngor ailymgymryd â’r cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r briffordd. Bydd yswiriant o'r fath yn darparu indemniad o ddim llai na £5 miliwn mewn perthynas â phob digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau a achosir gan, neu y gellir ei briodoli, i unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at hawliad. ***Rhaid cynnwyd copi o'r dystysgrif yswiriant gyda'r cais hwn*.**

9. Bydd y dyddiad pan fydd yr Awdurdod Priffyrdd yn ail-ymgymryd â chyfrifoldeb am gynnal y gwaith ar y priffyrdd, yn llwyr ar wahân i'r cyfarpar, fel arfer yn ddwy flynedd (tair blynedd ar gyfer gwaith cloddio sy'n fwy na 1.5 metr o ddyfnder) o'r dyddiad yr hysbysir yr Awdurdod (ar ffurf TGS2) o ddyddiad gwirioneddol y gwaith adfer. Hyd nes i’r Awdurdod Priffyrdd cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r gweithfeydd, bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am unrhyw hawliadau sy'n deillio o’r gwaith neu unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol a chostau cysylltiedig. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn penderfynu ar unrhyw waith angenrheidiol.

**10.** Mae angen taliad bond ar gais i indemnio'r Awdurdod Priffyrdd yn erbyn gwaith is-safonol. Bydd angen ffi o 20% o amcangyfrif cost y gwaith cyfan, a gellir ei dalu hynny drwy siec neu gerdyn. Bydd y taliad hwn yn cael ei ryddhau ar ôl y cyfnod cynnal a chadw. Fel arall, bydd Bond Mechnïaeth yn cael ei dderbyn. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn atebol am unrhyw arolygiadau pellach a allai fod yn angenrheidiol yn yr un modd ag a ddarperir o dan Adran 72 (2) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. ***Nodwch - bydd angen talu'r bond cyn y caniateir i unrhyw waith ddechrau.***

11. Bydd adferiad y gwaith yn unol â'r fanyleb a ddarperir gan yr Awdurdod Priffyrdd. Bydd unrhyw waith cloddio yn cael o leiaf adferiad dros dro gyda bitwmen macadam cyn tynnu ymaith unrhyw arwyddion a rhwystrau. Ni chaiff gwaith adfer ffosydd eu hailagor i ddefnyddwyr y briffordd heb fod o leiaf haen fitwminaidd dros dro mewn lle, sy'n gyfwynebol â lefel y briffordd gyfagos. Rhaid i unrhyw waith adfer dros dro cael ei gytuno gyda'r Awdurdod Priffyrdd.

12. Os bydd y gwaith yn cael eu canslo ar ôl i’r ffurflen gais cael ei chyflwyno, bydd ffi’n cael ei chodi ar yr ymgeisydd er mwyn ymdrin â chostau gweinyddol.

13. Mae'n drosedd gwneud gwaith stryd heb drwydded gwaith stryd ddilys. Cyfeiriwch at Adran 51 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

14. Os yw'r ymgeisydd yn gwrthwynebu'r amodau hyn neu'n gwrthod rhoi'r drwydded, yna gellir gwneud apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## B. GWEITHDREFN YMGEISIO

Rhaid **derbyn** ceisiadau o leiaf **UN MIS** cyn cychwyn ar y gwaith arfaethedig, wedi'i lofnodi gan berchennog y cyfarpar presennol neu arfaethedig. Mae hyn er mwyn caniatáu i Gyngor Sir Fynwy gyflawni ei ddyletswydd. **Os oes angen Cau Ffordd, rhaid derbyn cais o leiaf DRI MIS cyn i'r gwaith arfaethedig ddechrau.** Gallwch ein ffonio ar 01633 644644 am gyngor pellach.

Mae angen y canlynol er mwyn caniatáu'r drwydded: -

1. **Ffurflen gais wedi'i chwblhau (TGS1)**.

2. **Ffi'r drwydded** - taliad o flaen llaw (sieciau yn daladwy i Gyngor Sir Fynwy) o £1,016.00 ar gyfer ffosydd hyd at 200m a £490.00 am bob 200m wedi hynny.

3. **Cynlluniau ar raddfa 2 x 1:1250** (o safon Arolwg Ordnans) o leoliad a dyfnder arfaethedig y cyfarpar perthnasol, wedi'i farcio gan linell goch wedi torri.

4. **Caniatâd i gysylltu** - rhaid cael cydsyniad / caniatâd perchennog unrhyw gyfarpar presennol y mae cysylltiad i'w wneud ag ef, a phrawf o hynny wedi'i amgáu.

5. Rhaid cael copïau o **gynlluniau cyfleustodau** ar gyfer pob cyfleustod, gan nodi lleoliad y cyfarpar, ac amgáu'r copïau gyda'r cais. *Mae rhestr o ymgymerwyr i'w hysbysu wedi'i chynnwys yn y pecyn hwn.*

6. **Llythyr at drigolion lleol** sy'n cael eu heffeithio gan y gwaith. Rhaid i chi amgáu copi.

7. **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** - rhaid amgáu copi a rhaid iddo ddarparu yswiriant o **£5m** fel lleiafswm.

8. **Prawf o Achrediad Gwaith Stryd** - copïau o gardiau Cofrestr Cymwysterau Gwaith Stryd goruchwylwyr a gweithredwyr cymwys (y blaen a'r tu cefn). Rhaid i oruchwyliwr achrededig oruchwylio'r gwaith, a rhaid i o leiaf un gweithredydd achrededig fod ar y safle bob amser pan fydd y gwaith ar fynd. **D.S. ni all hyn fod yr un person.**

9. **Datganiad dull o waith ac asesiad risg.**

10. **Bond Mechnïaeth** - mae angen ffi o 20% o amcangyfrif cost y gwaith wrth wneud cais.

Mae'r canlynol yn ofynnol ar ôl cwblhau'r gwaith:-

- Rhaid cyflwyno **ffurflen gofrestru wedi'i chwblhau (TGS2)**, gan roi manylion unrhyw waith adfer, o fewn **10 DIWRNOD GWAITH** o ddyddiad cwblhau'r gwaith a chlirio'r safle. Rhaid gwneud gwaith adfer dros dro yn waith parhaol o fewn 6 mis, ac yn ystod yr amser hwnnw rhaid i'r gwaith adfer gyflawni i'r un safonau â gwaith parhaol.

| TGS<br>____________<br>*(Defnydd swyddfa yn unig)* | **Cyngor Sir Fynwy**<br><br>**CAIS AM DRWYDDED GWAITH STRYD** | ***Ffurflen TGS1*** |
|---|---|---|

**<u>ADRAN 1</u>** (Ymgeisydd – Enw a chyfeiriad perchennog yr eiddo i'w wasanaethu gan y cyfarpar)

Enw: ______________________________________________________________

Cyfeiriad: ___________________________________________________________

Cod Post: _______________ Rhif Ffôn: ______________ Ffôn Symudol: ___________________

Cyfeiriad e-bost: ________________________________________________________

**ADRAN 2** (Lleoliad y gwaith arfaethedig)

Enw'r Eiddo/Rhif yr Eiddo: __________________ Heol / Stryd:___________________________

Dinas/Tref/Pentref: _______________________________ Cod Post: _______________________

(Ticiwch y blychau lle'n briodol)

Gosod Offer Newydd / Gweithio ar Offer Presennol / Gwaith ôl-weithredol

Dyddiad Dechrau Arfaethedig: ____/____/_____ Dyddiad Gorffen Arfaethedig: ____/____/_____

Oriau Gwaith Arfaethedig: Dydd Amser ☐ Gyda'r Nos ☐ Cyfyngedig ☐

Amcangyfrif o hyd y gwaith: ______________ metr

Dyfnder y cloddio ar gyfartaledd Hyd at 1.5m ☐ Dros 1.5m ☐ Dim Cloddio ☐

Rheolaeth Ffordd Arfaethedig Cau'r Ffordd*☐ Signalau Traffig Dros Dro ** ☐
Byrddau Aros/Ewch** ☐ Llif Blaenoriaeth ☐
Dim/Arwyddo ☐

*Ffoniwch 01633 644644; bydd angen gwneud cais am hyn ar wahân.
** Cwblhewch y ffurflen signalau traffig cludadwy sydd wedi'i chynnwys yn y pecyn hwn.
.

Mae'r gwaith o fewn y canlyn☐ Min y Ff☐dd Llwybr T☐ed ☐ffordd Gerbydau Pob Un

**Rhaid cyflwyno dau gynllun graddfa gyda'r cais, sy'n dangos llinell y cyfarpar (mewn coch) o fewn y stryd, gan gynnwys y pwynt cyswllt ag unrhyw gyfarpar presennol arall.**

Disgrifiad o'r gwaith arfaethedig:

***Ffurflen TGS1 (parhad)***

**<u>ADRAN 3</u> (Manylion y person/cwmni sy'n gwneud y gwaith)**

Enw: ______________________________________________________________

Cyfeiriad: ____________________________________________________________

______________________________________________________________________

Rhif Ffôn: _________________________ Ffôn Symudol: _____________________

Enw Cyswllt: ___________________ Cyfeiriad E-bost: ___________________________

Rhaid nodi isod enwau a manylion y personél sydd i'w cyflogi ar y safle, i weithredu fel Gweithredwyr a Goruchwylwyr Achrededig, o dan Reoliadau Gwaith Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992:-

Enw'r Goruchwyliwr: _______________________ Rhif Cofrestru: ___________________

Dyddiad mae'r cerdyn yn dod i ben: _____/_____/__________

Enw'r Gweithredwr: ________________________ Rhif Cofrestru: ___________________

Dyddiad mae'r cerdyn yn dod i ben: _____/_____/__________

***<u>Mae angen Prawf Achrediad. Amgaewch gopi clir o ochr blaen ac ochr cefn y cardiau.</u>***

**MANYLION CYSWLLT BRYS (rhif ffôn cyswllt 24 awr)**

Enw: ______________________________________________________________

Rhif Ffôn: __________________________________________________________

Cyfeiriad e-bost: _______________________________________________________

**<u>ADRAN 4</u>** (Manylion Yswiriant)

Rhaid i'r contractwr ddarparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth £5 miliwn fel lleiafswm, a rhaid iddo fod yn ddilys hyd at gwblhau'r gwaith adfer parhaol. (Mae angen copi o'r ddogfen yswiriant)

Enw'r Cwmni: _________________________________________________________

Cyfeiriad: ____________________________________________________________

__________________________________________ Cod Post: ____________________

Rhif Ffôn: _____________________________

Rhif y Polisi: _______________________ Dyddiad y daw i ben: _____________________

***Ffurflen TGS1 (parhad)***

**ADRAN 5**

Rwy'n cadarnhau bod y manylion uchod yn gywir, ac yn cydnabod bod yn rhaid i'r gwaith y cyfeirir ato uchod cael ei gynnal yn unol â gofynion y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004, y ddeddfwriaeth a chodau ymarfer cysylltiedig, ynghyd ag unrhyw amodau eraill a osodir gan yr Awdurdod Stryd.

Rwyf yn cadarnhau y cymerwyd pob cam rhesymol ymarferol er mwyn sicrhau bod perchnogion eraill, o gyfarpar sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaith hwn, wedi cael eu hysbysu a lle bo angen cael nodyn o leoliad eu hoffer.

Rwy'n cydnabod bod y drwydded yn cael ei chyhoeddi ar yr amod y byddaf yn indemnio'r Awdurdod Stryd yn erbyn unrhyw hawliad mewn perthynas ag anaf, difrod neu golled sy'n deillio o'r canlynol:

a) Gosod neu bresenoldeb yn y stryd o gyfarpar preifat y mae'r drwydded yn berthnasol iddo, neu
b) Weithred gan unrhyw berson/personau o unrhyw waith a awdurdodwyd gan y drwydded.

Yr wyf yn cydnabod yr angen statudol i mi dalu'r ffioedd arolygu a ragnodwyd, a fydd yn cael eu gosod gan yr Awdurdod Stryd, gan gynnwys unrhyw ffioedd archwilio nam a chost unrhyw waith adfer angenrheidiol a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Stryd yn ystod y cyfnod gwarant.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y Nodiadau Cyfarwyddyd a'r Amodau fel sydd ynghlwm.
(DS efallai caiff amodau penodol pellach eu gosod ar adeg caniatáu'r drwydded).

Llofnod: ________________________________________ Dyddiad: _______________________

Printiwch eich Enw: ______________________________________________________

Yn rhinwedd fy swydd fel: ________________________________________________________

***Dychwelwch i:***

**Kelly Santaana**
**Priffyrdd**
**Cyngor Sir Fynwy**
**Neuadd y Sir**
**Y Rhadyr**
**Brynbuga**
**NP15 1GA**

**streetworks@monmouthshire.gov.uk**

**_FFURFLEN SIGNALAU TRAFFIG CLUDADWY_**

**Adran Priffyrdd**
**Cyngor Sir Fynwy,**
**Neuadd y Sir**
**Y Rhadyr**
**Brynbuga**
**NP15 1GA**
**Rhif Ffôn: 01633 644764**
**E-bost: streetworks@monmouthshire.gov.uk**

**RHEOLIADAU A CHYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL ARWYDDION TRAFFIG 1994 Rhif 1519**
Rhaid anfon y ffurflen hon i'r Adran Gwaith Stryd, i'r cyfeiriad / e-bost uchod.

| | | |
|---|---|---|
| CAIS AM REOLAETH SIGNALAU AMLWEDD | | EICH CYF: |
| HYSBYSIAD AM REOLAETH SIGNALAU DEUFFORDD | | AWDURDOD STRYD CYF: |
| BYRDDAU AROS AC EWCH | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O: | | | | ENW CYSWLLT: | | | | | |
| | | | | RHIF FFÔN: | | | | | |
| | | | | FFACS: | | | | | |
| | | | | CYSWLLT ALLAN O ORIAU: | | | | | |
| CLEIENT | | | | RHIF FFÔN: | | | | | |
| ARGYFWNG / BRYS - 2 awr | | GWAITH MAWR -1 MIS | | WEDI'I GYNLLUNIO - 7 DIWRNOD | | 3 DIWRNOD | | 1 DIWRNOD | |
| DYDDIAD DECHRAU: | | | | DYDDIAD GORFFEN: | | | | | |
| LLEOLIAD Y GWAITH: | | | | | | | | | |
| RHIF Y FFORDD: | | CYF. GRID AO | | A YW'R SAFLE YN CYNNWYS CYFFORDD?: YDY*/ NAC YDY* | | | | | |
| LLEOLIAD SENSITIF I DRAFFIG?: YDY*/NAC YDY* OS YDYW, CYFEIRIWCH AT YR AWDURDOD PRIFFYRDD | | | | | | | | | |
| PWRPAS Y GWAITH: | | | | | | | | | |
| ORIAU GWEITHREDU | | DIWRNOD GWAITH (H.Y. 7.30AM I 4.30PM) | | | | GWEITHRED 24 AWR | | | |
| MAE'R WYBODAETH YCHWANEGOL GANLYNOL YN OFYNNOL AR GYFER CYMERADWYAETH GWEITHREDU AML-GAMAU | | | | | | | | | |
| AMSEROEDD YR AML-GAMAU: | | | | | | | | | |
| LLED Y FFYRDD GWEDDILLIOL: | | | | | | NIFER Y SIGNALAU: | | | |
| 4 Copi o Gynlluniau Safle a Chynlluniau Lleoliad yn dangos lleoliad y signalau | | | | | | | | | |

DATGANIAD:
Yr wyf i / Rydym ni drwy hyn yn tystio bod y signalau traffig cludadwy a ddefnyddir yn fath sydd wedi cael eu cyme gan Gyfarwyddebau'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru:

Llofnod: ................................................................... Enw: ........................................................

Dyddiad: ……../……../…………..

## E. RHESTR O YMGYMERWYR I'W HYSBYSU (CYWIR FEL AR 05/02/18)

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru<br>Cofnodion Asedau<br>Gwasanaethau Data O.A.C<br>Parc Busnes y Dwyrain<br>Llaneirwg<br>Caerdydd<br>CF3 0LT<br>0800 917 2652 | Virgin Media Business<br>National Plant Enquiries Team<br>Mayfair Business Park<br>Broad Lane<br>Bradford<br>BD4 8PW<br>plant.enquiries.team@virginmedia.co.uk |
| NRSWA Section<br>Mapping Centre<br>Western Power Distribution<br>Lamby Way<br>Tredelerch<br>Caerdydd<br>CF3 2EQ<br>0845 6013341<br>wpdmapresponse@westernpower.co.uk | Draeniau Priffyrdd<br>Cyngor Sir Fynwy<br>Depo Rhaglan<br>Heol yr Orsaf<br>Rhaglan<br>NP15 2ER<br>highways@monmouthshire.gov.uk |
| Wales and West Utilities<br>Wales and West House<br>Clos Spooner,<br>Celtic Springs,<br>Coedkernew,<br>Casnewydd.<br>NP10 8FZ<br>02920 278912<br>plantprotectionenquiries@wwutilities.co.uk | |
| British Telecom<br>National Notice Handling Centre<br>Postpoint 5WW6<br>Telecom House<br>Trinity Street<br>Hanley<br>Stoke on Trent<br>ST1 5ND<br>0800 023 2023 (opsiwn 5)<br>nnhc@openreach.co.uk | |

## F. <u>RHESTR WIRIO</u>

Dylai pob ymgeisydd sicrhau eu bod wedi amgáu'r dogfennau canlynol, fel ni fydd y broses cymeradwyo yn cael ei oedi.

*(Ticiwch os gwelwch yn dda)*

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ffi Ymgeisio a’r Taliad Bond | |
| 2. | Ffurflen Gais (TGS1) | |
| 3. | Cynlluniau Graddfa 2 x 1:1250 y Gosodiad Arfaethedig | |
| 4. | Cymeradwyaeth y Cysylltiad | |
| 5. | Cynlluniau Cyfarpar Ymgymerwr Statudol | |
| 6. | Datganiad Dull Gwaith | |
| 7. | Llythyr i’r Preswylwyr | |
| 8. | Prawf o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus | |
| 9. | Prawf Achrediad - *y Goruchwyliwr <u>A’R</u> Gweithredwyr* | |

I'W GYFLWYNO O FEWN 10 DIWRNOD AR ÔL CWBLHAU'R GWAITH

| | | |
|---|---|---|
| | **DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991<br>COFRESTRU'R GWAITH** | ***Ffurflen<br>TGS 2*** |

**Cyfeirnod** (Defnydd Swyddfa yn Unig) **TGS**___________

| | |
|---|---|
| At sylw **Cyngor Sir Fynwy<br>Gwaith Stryd<br>Neuadd y Sir<br>Y Rhadyr<br>Brynbuga<br>NP15 1GA** | Oddi wrth:<br><br>Ebost:<br><br>Rhif Ffôn: |
| Gwir Ddyddiad Cychwyn | Gwir Ddyddiad Gorffen |

***LLEOLIAD***

**Disgrifiad neu**
**Enw neu Rif y Tŷ**

**Enw'r Stryd**

**Enw'r Ardal Leol**

**TREF**

**Cod Post** Cyf. Grid Arolwg Ordnans

***DISGRIFIAD O'R GWAITH***

| **ADFER** Lleoliad | | **Dimensiynau Terfynol** | | | | **Dyddiadau Terfyn ar y Gwaith** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eitem** | | **Hyd (m)** | **Lled (m)** | **Ffordd Gerbydau / Llwybr Troed neu Ymyl y Ffordd *** | **Dyfnder cloddio dros 1.5m** | **Dros Dro** D | M | B | **Parhaol** D | M | B |
| **1** | | | | | | | | | | | |
| **2** | | | | | | | | | | | |
| **3** | | | | | | | | | | | |
| **4** | | | | | | | | | | | |
| **5** | | | | | | | | | | | |
| **6** | | | | | | | | | | | |

***Os yw'r gwaith adfer o fewn mwy nag un rhan o'r briffordd, rhowch y dimensiynau ar gyfer pob rhan**

**Braslun o'r lleoliad - gan gynnwys mesuriadau i wrthrychau sefydlog (defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen)**